| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Mehefin 2017** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Comisiynu ar gyfer y Gwasanaethau i Ofalwyr** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cynnydd – Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych 2016-19** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad i aelodau ar weithrediad Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych [Atodiad 1] a dderbyniwyd er gwybodaeth gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2017. Datblygwyd y Strategaeth yn ystod 2016 gan Grŵp Aml-asiantaeth Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych. Mae'r Strategaeth yn nodi sut y bydd Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych yn parhau i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu ymhellach y gefnogaeth i Ofalwyr yn Sir Ddinbych mewn ffordd sy'n mynd i'r afael ag anghenion lleol Gofalwyr, o fewn cyd-destun deddfwriaeth newydd a newidiadau demograffig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ynglŷn â chynnydd datblygiad y Strategaeth. Mae'r Strategaeth yn cael ei thanategu gan ddeddfwriaeth newydd, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn benodol.

Mae deddf newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gofyn am newid mewn diwylliant sy'n darparu mwy o ffocws ar hybu gwytnwch, annibyniaeth, hunanofal a chymorth yn y gymuned. Mae'n cydnabod bod gan ofalwyr rôl ataliol, ac yn rhoi hawliau cyfwerth â rhai dinasyddion eraill er mwyn cefnogi a chynnal y rôl hon mewn perthynas â gofal a chefnogaeth i eraill. Wrth ddatblygu gofynion y Ddeddf, roedd yn bwysig cynnwys anghenion cefnogaeth y Gofalwyr yn natblygiad ymagwedd newydd Sir Ddinbych sy'n seiliedig ar asedau er mwyn asesu a diwallu anghenion, yn hytrach na gwneud hyn ar ei ben ei hun.

Mae cynnydd yn erbyn y Strategaeth yn cael ei ddogfennu yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaeth [Atodiad 2] sy'n nodi'r camau gweithredu er mwyn i bartneriaid strategol a thrydydd sector ddatblygu cefnogaeth i Ofalwyr yn Sir Ddinbych, a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r ddeddfwriaeth statudol newydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod aelodau archwilio yn ystyried yr adroddiad ac yn darparu sylwadau fel y bo'n briodol mewn perthynas â sut y mae partneriaid yn Sir Ddinbych yn parhau i weithio

gyda'i gilydd i ddatblygu cefnogaeth i Ofalwyr yn Sir Ddinbych, mewn cyd-destun o gynnydd mewn galw, deddfwriaeth newydd a newidiadau demograffig.

3.2 Bod aelodau archwilio yn parhau i gefnogi a hyrwyddo cyflawniadau'r Strategaeth er mwyn i Wasanaeth Cymorth Cymunedol Sir Ddinbych ddiwallu ei oblygiadau statudol ar gyfer Gofalwyr, mewn partneriaeth â phartneriaid statudol a thrydydd sector.

3.3 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Cynllun Gweithredu'r Strategaeth yn cael ei lunio yn erbyn y canlyniadau ar gyfer dinasyddion yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth gyda'r Ddeddf. Mae hefyd yn cael ei fapio yn erbyn Blaenoriaethau Allweddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar gyfer y rhanbarth canolog. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru (gweler Atodiad 2), fodd bynnag, mae'r canlynol yn darparu mwy o fanylion ynglŷn â'r ardaloedd datblygu ehangach:

4.2 Mae 'Pwyntiau Siarad' Sir Ddinbych, yn fenter Gwasanaeth Cymorth Cymunedol Sir Ddinbych mewn ymateb i'r Ddeddf, sy'n gymorth i sicrhau bod cymunedau Sir Ddinbych yn 'ymwybodol o ofalwyr'. Maent wedi'u lleoli mewn wyth cymuned ar draws y Sir, ac yn darparu gwybodaeth a chyngor i ddinasyddion yn amrywio o gefnogaeth leol /yn y gymuned i gymorth arbenigol a statudol. Mae Pwyntiau Siarad yn cael eu cefnogi gan staff gofal cymdeithasol a sefydliadau'r trydydd sector - yn bennaf Llyw-wyr Cymunedol a gomisiynwyd gan yr awdurdod, Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-Ddwyrain Cymru, Alzheimer's a Hafal. Mae tystiolaeth dda o waith ar y cyd yn y Pwyntiau Siarad i nodi Gofalwyr a'u hymgysylltu â'r sgyrsiau Beth sy'n Bwysig. Gall Gofalwyr wneud apwyntiad yn y Pwyntiau Siarad i gael asesiad manwl o'u hanghenion.

4.3 Mae datblygiad Porth Gwybodaeth DEWIS hefyd wedi bod yn allweddol i ddarparu mwy o fynediad i wybodaeth ar gyfer dinasyddion, gan gynnwys Gofalwyr, ac mae'n cynnwys parth penodol a elwir yn "Gofalu am Rywun". Yn lleol, mae gwaith wedi'i wneud gyda phartneriaid y trydydd sector, yn enwedig rhai a ariennir gan yr awdurdod lleol, i sicrhau bod manylion eu gwasanaethau yn cael eu cofnodi ar y wefan.

4.4 Bydd Wythnos Gofalwyr 12-18 Mehefin 2017 yn cael ei hyrwyddo ar draws yr holl Bwyntiau Siarad yn Sir Ddinbych i godi ymwybyddiaeth o Ofalwyr yn ein cymunedau ac i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol.

4.5 Mae ymagwedd newydd Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Sir Ddinbych sy'n seiliedig ar asedau yn cael ei gymhwyso'n gyfartal i Ofalwyr yr un fath â dinasyddion eraill, a darperir Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth beth bynnag fo'r lefel o ofal sy'n cael ei ddarparu. Mae gofalwyr yn awr yn ymgysylltu â sgyrsiau ynglŷn â Beth Sy'n Bwysig iddynt a sut y gellir eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau lles.

4.6 Mae'r Pwynt Mynediad Sengl wedi bod yn ddatblygiad allweddol i ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i ddinasyddion, gan gynnwys Gofalwyr. Mae staff y Pwynt Mynediad Sengl wedi'u hyfforddi i nodi Gofalwyr gyda chefnogaeth Cefnogwr Gofalwyr yn y Pwynt Mynediad Sengl, a datblygwyd system brysbennu i sicrhau bod ymagwedd gymesur yn cael ei darparu er mwyn i Ofalwyr dderbyn y lefel briodol o gefnogaeth. Mae gwaith yn parhau ar draws y gwasanaeth i sicrhau bod lefel y sgwrs yn gymesur ag anghenion cefnogaeth yr unigolyn.

4.7 Mae staff gweithredol wedi derbyn hyfforddiant ar y Ddeddf newydd sy'n cynnwys canolbwyntio ar hawliau gwell i Ofalwyr.

4.8 Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio'n sylweddol ar y defnydd o gyllidebau cefnogi (taliadau uniongyrchol) i roi mwy o ddewis a rheolaeth i unigolion dros y gefnogaeth y maent ei hangen. Mae grantiau 'un tro' (math o gyllideb gefnogi) wedi bod ar gael i Ofalwyr yn Sir Ddinbych ers sawl blwyddyn, fodd bynnag, mae gwaith yn parhau i ystyried sut y gellir datblygu darpariaeth cyllidebau cefnogi ymhellach i alluogi cyflawni canlyniadau lles drwy wahanol ffyrdd o weithio. Mae Tîm Prosiect Cyllideb Cefnogi a nifer o Grwpiau Tasg a Gorffen wedi'u sefydlu i alluogi staff i deimlo'n hyderus wrth ymgorffori cyllidebau cefnogi yn y prosesau o gynllunio cefnogaeth. (Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â gwaith Taliadau Uniongyrchol Rhanbarthol a Grant Cyfleusterau i’r Anabl). Un maes o ddatblygiad yw gwasanaeth seibiant byr sy'n fwy hyblyg sy'n cael ei ddarparu gan Crossroads North Wales sy'n galluogi Gofalwyr i fancio oriau dros gyfnod o ddeufis os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

4.9 Mae Sir Ddinbych wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector i gefnogi Gofalwyr (gan gynnwys NEWCIS, Alzheimers, Hafal a Mind) a darparu grantiau i ariannu eu gwasanaethau. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein prosesau ar gyfer cyllido'r trydydd sector i sicrhau bod yr holl wasanaethau yn diwallu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

4.10 Penodwyd Rheolwr Busnes Gofalwyr Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Mawrth eleni. Mae hon yn swydd ddeuddeg mis a gynhelir gan Sir Ddinbych ac sydd wedi'i lleoli yn y tîm Cydweithredu Rhanbarthol. Mae Gofalwyr yn un o'r grwpiau blaenoriaeth ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, a bydd cylch gwaith y swydd yn cynnwys datblygu yr Asesiad Poblogaeth ymhellach mewn perthynas â Gofalwyr. Bydd cynllun busnes rhanbarthol yn cael ei lunio ar ddechrau mis Hydref 2017 a fydd yn canolbwyntio ar:

- Fapio gwasanaethau gofalwyr ar draws Gogledd Cymru
- Casglu straeon Gofalwyr ar draws y rhanbarth
- Gwella gwaith partneriaeth.
- Gwell cydlyniad o wasanaethau a gostyngiad mewn gwariant dyblyg
- Ystyried cyfleoedd cyllido rhanbarthol
- Nodi strategaethau rhanbarthol ar gyfer y dyfodol
- Alinio buddsoddiadau gyda'r hyn y mae Gofalwyr yn ei ddweud

Mae Swyddog Comisiynu Gwasanaethau Gofalwyr Sir Ddinbych ac aelodau o'r Grŵp Strategaeth Gofalwyr yn gweithio mewn partneriaeth gyda Rheolwr Busnes Gofalwyr Rhanbarthol i hysbysu'r gwaith hwn.

4.11 Mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (GOGDDC) wedi derbyn Cyllid y Loteri Fawr i ddatblygu gwasanaethau i Ofalwyr yn Sir y Fflint a

Sir Ddinbych yn ddiweddar. Bydd y prif ddatblygiadau yn cynnwys cyngor hawliau lles, eiriolaeth, a chynllun seibiant i Ofalwyr gan ddefnyddio cyfleusterau mewn Cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol yn y ddwy sir. Mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd i gyflwyno cynllun peilot y gwasanaeth hwn yn Llys Awelon, Rhuthun, i ddarparu 3-4 noson o seibiant i Ofalwyr, naill ai gyda neu heb yr unigolyn y gofelir amdanynt.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r Strategaeth Gofalwyr yn benodol yn cyfrannu at flaenoriaeth gorfforaethol mewn perthynas â sicrhau bod "pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl". Mae Gofalwyr yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'n cymunedau i gefnogi'r unigolion y maent yn gofalu amdanynt i barhau i fod yn annibynnol. Bydd datblygiad parhaus y Strategaeth yn ceisio sicrhau nad yw Gofalwyr eu hunain yn ddiamddiffyn oherwydd eu rôl o ofalu, a'u bod yn derbyn cefnogaeth i barhau'n annibynnol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd yn rhaid rheoli unrhyw gynnydd mewn galw ar y gwasanaethau o fewn y cyllidebau presennol. Mae'n debyg mai mesurydd llwyddiant y Ddeddf newydd fydd gostyngiad yn nifer y Gofalwyr sydd angen asesiad manylach os ydynt yn cael eu cefnogi'n effeithiol ar ddechrau eu rôl o ofalu. Mae'n bwysig bod yr effaith ar wasanaethau ataliol megis y rhai sy'n cael eu darparu gan y trydydd sector yn cael ei fonitro, a bod y gwasanaethau yn cael eu hail-alinio i ddiwallu'r galw.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?**

Prif gasgliadau'r asesiad o effaith ar les a gwblhawyd ym mis Ionawr 2017 (Atodiad 3) oedd y byddai'r strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar draws yr holl nodau lles, ac adlewyrchir hyn yn y sgôr datblygu cynaliadwy. Mae'r Strategaeth wedi'i halinio gyda Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a gofynion y ddeddf Newydd mewn perthynas â Gofalwyr, sydd â hawliau sy'n gyfartal â rhai'r unigolyn y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r Strategaeth yn ceisio sicrhau bod Sir Ddinbych yn diwallu ei oblygiadau cyfreithiol newydd i Ofalwyr, ac yn cyflawni hyn drwy ddull partneriaeth ystyrlon. Mae'r ymagwedd hon, ynghyd ag ymagwedd Sir Ddinbych sy'n seiliedig ar asedau, i ddiwallu gofynion y Ddeddf newydd, yn sicrhau y bydd yr holl Ofalwyr yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth i'w cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau lles eu hunain. Bydd hyn yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai y maent yn gofalu amdanynt, a'r gymuned ehangach o bosib. Ni chynhaliwyd asesiad wedi'i ddiweddaru ar gyfer yr adroddiad cynnydd hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Ni chynhaliwyd proses ymgynghori at ddibenion yr adroddiad cynnydd hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes angen datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad diweddaru hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae cyflawniadau'r Strategaeth yn dibynnu'n helaeth ar waith partneriaeth sy'n cael ei oruchwylio gan Grŵp Strategaeth Gofalwyr i sicrhau bod cynnydd yn parhau.

**11. Grym i wneud y Penderfyniad**

Mae pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u pennu yn Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor.

**Swyddog Cyswllt:**
Swyddog Comisiynu – Gofalwyr
Rhif ffôn:  01824 706658